

## Y Parchg Lyn Léwis Dafis (1960-2022)

Tristawyd cylch eang o ffrindiau o glywed am farwolaeth y Parch Lyn Léwis Dafis ar 15 Mawrth 2022, yn 61 oed. Roedd yn Offeiriad â gofal yng Ngrŵp Eglwysi Bro Padarn, gyda chyfrifoldeb arbennig dros gynulleidfaoedd Sant Ioan, Penrhyn-coch a Sant Pedr, Elerch, o dan arweiniad Deon yr Ardal Weinidogaethol Leol, Canon Andrew Loat. Yr oedd Lyn yn offeiriad plwyf poblogaidd, annwyl, uchel ei barch a thalentog y bydd gweld ei eisiau, nid yn unig gan ei gynulleidfa a'i blwyfolion, ond hefyd gan lawer o gydymdeithion yn ymestyn ymhell y tu hwnt i Gymru i'r gymuned ryngwladol.

Ganed Lyn ym mhentref bychan Mynachlog-ddu yng ngogledd Sir Benfro, ar 11 Awst 1960. Mynychodd ysgol gynradd y pentref cyn symud i Ysgol y Preseli yng Nghrymch. Graddiodd gyda BA mewn Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg o Brifysgol Aberystwyth yn 1981, ac yn ddiweddarach cafodd gymhwyster ôl-radd mewn llyfrgellyddiaeth yn yr Adran Astudiaethau Llyfrgell a Gwybodaeth yn Llanbadarn Fawr ar ôl cyfnod yn gweithio i Lyfrgelloedd Dyfed. Yn dilyn hynny, fe weithiodd eto yn y sector llyfrgelloedd cyhoeddus ym Morgannwg Ganol cyn ei apwyntiad ar 17 Ebrill 1989 fel Curadur Cynorthwyol yn yr Adran Printiadau, Mapiau a Lluniau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Yn dilyn ailstrwythuro gweithiodd yn yr Uned Digiddeiddio a Metadata o Dachwedd 2006 ac, o Ebrill 2009 tan ei ymddiswyddiad o'r Llyfrgell ym mis Hydref 2014, fe fu'n Bennaeth Uned Datblygu Digidol'r Llyfrgell. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n goruchwylio sawl prosiect arloesol megis digido casgliadau eang ffotograffiaeth a chyfnodolion y Llyfrgell gan wneud y rhain ar gael i gynulleidfa fyd-eang, a thrawsnewid proffil traddodiadol y darllenydd a'r defnyddiwr.

Er iddo gael ei fagu yn nhraddodiad y Bedyddwyr, daeth Lyn yn gymunwr rheolaidd yn Eglwys y Santes Fair (Anglicanaidd) yn Aberystwyth, ble datblygodd i fod yn ddarllenydd lleyg gwerthfawr. Er iddo ddringo i swydd uchel yn y Llyfrgell Genedlaethol yr oedd yn dal i deimlo braidd yn anghyflawn wrth i dynfa gryfach i'r weindogaeth lawn-amser ei alw. Yn 2014 fe wnaeth, wedi gwasanaethu yn y Llyfrgell am dros 25 mlynedd, y penderfyniad dewr i ymddiswyddo o'i swydd dda, a hyfforddi yng Ngholeg Sant Mihangel, Llandaf, am y weindogaeth Anglicanaidd. Wedi graddio gyda diploma mewn diwinyddiaeth, fe'i urddwyd fel diacon yn 2015 ac offeiriad yn 2016 gan Esgob Wyn yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi a'i apwyntio fel Curad Cynorthwyol ym Mywoliaeth Grŵp Llanbadarn Fawr, Elerch, Penrhyn-coch a Chapel Bangor. Ym mis Gorffennaf 2021, mewn gwasanaeth yn Eglwys Llanbadarn Fawr, trwyddedwyd Lyn yn Swyddog Esgobaethol dros y Gymraeg a Dwyieithrwydd ac yn Offeiriad â gofal yn Ardal Weinidogaethol Leol Bro Padarn. Yr oedd y rôl ddeuol hon yn gweddu iddo – nid yn unig yr oedd yn aelod o dîm oedd yn gyfrifol am ofal bugeiliol cynulleidfaoedd Penrhyn-coch ac Elerch, yr oedd hefyd yn gallu tynnu ar ei sgiliau proffesiynol eang wrth wella presenoldeb a phroffil yr eglwysi ar y cyfryngau cymdeithasol a helpu aelodau y gwahanol gynulleidfaoedd i ennill hyder wrth eu defnyddio a'u datblygu er eu defnydd eu hunain. Yr oedd hefyd yn golygu cylchlythyr wythnosol digidol Bro Padarn ac yn cyfrannu'n rheolaidd at gylchgrawn esgobaethol *Pobl Dewi*.

Yr oedd Lyn yn offeiriad plwyf gofalgwr a thosturiol. Yr oedd yn ddyn pobl, a bydd y rhai a oedd yn ei adnabod yn dda yn gallu tystio i'w dalentau enfawr. Yr oedd yn offeiriad ffyddlon, ac yn gefnogwr mawr i'w gydweithwyr. Yr oedd hefyd yn berfformiwr naturiol, fel y gall llawer, yn enwedig rhai o'i ddyddiau yn y Llyfrgell, dystio. Wrth lansio llyfr, neu gystadlu yn eisteddfod flynyddol staff y Llyfrgell, neu arwain 'charades' yn y cinio Nadolig, ni allai neb ddod yn agos at faeddu sgiliau actio a chyflwyno Lyn. Byddai gwylwyr yn anochel yn eu dyblau wrth chwerrthin pan oedd Lyn yn ei elfen.

Ond yr oedd gan Lyn ochr ddifrifol hefyd, a gallai'r rhai a fu'n dystion i'w weindogaeth a'i waith bugeiliol werthfawrogi ei ymrwymiad di-symud at achos Crist. Yr oedd plant Ysgol Penrhyn-coch yn dwlu arno a byddant yn cofio am byth ei gyflwyniadau a baratowyd mor ofalus a'r cyfarfpar gweledol a gynlluniwyd mor drylwyr. Fe oedd y meistr seremoniau yn aml yn y noson Gaws, Gwin a Chên yn eglwys Sant Pedr, Elerch, yn cyfuno ei dalent unigryw i ddiddanu, tra ar yr un pryd yn ein hatgoffa ein bod yno i hyrwyddo a thyfu achos nobl. Yr oedd Lyn yn feistr ar sawl peth - yn garwr llyfrau, darlledwr, golygydd ac ieithydd, Cymro angerddol, ac, efallai'n syndod i lawer, cefnogwr brwd o Chelsea, ble fu ei fam yn gweithio unwaith.

Bu Lyn yn brwydro yn erbyn afiechyd am flynyddoedd lawer, ac mewn un ffordd, yn ddigon eironig, galluogodd dyfodiad Covid-19, a chau ein heglwysi, iddo ddefnyddio ei sgiliau digidol i sicrhau bod gair Duw heb ei anghofio, ac yr oedd gwasanaethau zoom yn ffordd newydd ardderchog i alluogi addoliad wythnosol, yn gwasanaethu cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg. Yr oeddent yn boblogaidd ac er na allai pob aelod eglwysig addasu, yr oeddent yn gallu denu mynychwyr newydd, ac yr oedd cynulleidfaoedd bach, fel Elerch, yn hapus i fod yn rhan o gynulleidfa fwy. Tra bu Lyn yn ymdrechu yn erbyn afiechyd a symudedd, yr oedd y llwybrau hyn o leiaf yn ei alluogi i wneud cyfraniad gwerthafwr ac amlwg i waith y plwyf. Yr oedd hefyd wedi gallu ehangu gweithgaredd digidol i gynnwys cwis ar-lein bob pythefnos i fynychwyr boreau coffi cymuned Penrhyn-coch, a fe oedd yn llywyddu'n frenhinol fel cwisfeistr (er bod ei sgiliau perswadio yn golygu mai ni feidrolion oedd yn gorfod paratoi cwestiynau!)

Yr ydym i gyd wedi colli cyfaill da iawn, a Christion ymroddedig. Byddwn yn colli ei gwmni, ei dosturi, ei gyfeillgarwch, ei arweiniad a'i hiwmor. Ni fyddaf mwyach yn gallu tynnu ei goes bod ei Skoda bach coch CK62 VRR yn cario plât rhif arbennig – Very Reverend!

Y mae ein cydymdeimlad gyda'i deulu – ei chwaer Mandy, ei frawd Robert, ei nai Dion a'i nith Sara. Yr ydym hefyd yn rhoi diolch i'w ffrind da a'i gydymaith Richard Owen am ofalu amdano am dros bedair blynedd, a galluogi iddo barhau â'i waith hyd y gallai.

Bydd Lyn yn cael ei amlosgi yn dilyn gwasanaeth preifat yn Amlosgfa Aberystwyth ar Fawrth 26, a bydd gwasanaeth coffa yn Eglwys Llanbadarn Fawr yn dilyn. Cleddir ei lwch yn nes ymlaen yn Eglwys Penrhyn-coch.

Cwsg yn dawel Lyn!

*Richard E Huws*